Adran Gwaith
a Phensiynau

Y pensiwn un haen:

sylfaen syml ar gyfer cynilo

Ionawr 2013

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau 3

Crynodeb gweithredol 4

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Ym mis Rhagfyr 2012, dathlwyd saith deg mlynedd ers cyhoeddi adroddiad Beveridge. Y ddogfen 300 tudalen fyddai'r glasbrint ar gyfer y wladwriaeth les, ac fe'i croesawyd gyda chryn frwdfrydedd: ffurfiodd ciw dros filltir o hyd yn ôl y sôn y tu allan i Lyfrfa'r Llywodraeth ar 1 Rhagfyr 1942 i gael gafael ar gopi. Yn ganolog i weledigaeth Beveridge o gynllun yswiriant cymdeithasol cyffredinol roedd pensiwn ymddeol cyfrannol sylfaenol heb fod ar sail prawf modd.[1]

Saith deg mlynedd yn ddiweddarach, mae cryn dipyn wedi newid:

- mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagamcanu y bydd 36 y cant o'r bobl a enir yn 2013 yn byw tan eu bod yn gant oed[2] – yn y 1940au, dim ond lleiafrif o ddynion a oedd yn byw i fod yn 65 oed;
- gwelwyd cynnydd o 50 y cant yn nifer y merched sy'n gweithio – yn 1948 dim ond tua phedair o bob deg o ferched oedd mewn cyflogaeth â thâl[3];
- mae nifer yr achosion o ysgaru wedi cynyddu o 11 y cant o'r priodasau yn 1948; i tua 50 y cant yn 2012[4];
- mae'r farchnad lafur bellach yn llawer mwy amrywiol - mae dros draean o'r rheini sy'n gweithio heddiw naill ai'n hunangyflogedig neu'n gweithio'n rhan-amser.[5]

Mae llywodraethau olynol wedi ceisio cadw i fyny â'r newid cymdeithasol ac economaidd hwn, gan adeiladu ar lasbrint Beveridge. Fodd bynnag, mae system o ddiwygio pensiynau fesul tipyn wedi arwain at system bensiynau gymhleth iawn ac nid yw llawer o bobl yn gwybod faint y byddant yn ei gael pan fyddant yn ymddeol. Mae dibyniaeth gynyddol ar fudd-daliadau prawf modd a chlytwaith o elfennau ychwanegol, sy'n gwneud iawn am y gostyngiad hirdymor yng ngwerth cymharol Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, yn cymhlethu pethau ymhellach. Yn ogystal, hyd yn oed ar ôl y diwygiadau i bensiynau yn 2010, erys anghydraddoldebau yn y system: nid yw'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol a delir gan bobl hunangyflogedig yn arwain at yr hawl i gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth a bydd rhaid aros tan ganol y 2050au cyn bod dynion a merched yn cael yr un taliadau o ran pensiwn y wladwriaeth.

Ym mis Ebrill 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyrdd ar ddiwygio pensiwn y wladwriaeth sef '*Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer yr 21ain ganrif*'[6]. Derbyniwyd dros 1,600 o ymatebion ysgrifenedig gan unigolion a 102 o ymatebion gan sefydliadau, ac yn ystod y cyfnod dilynol cynhaliwyd rhaglen helaeth o ymgynghoriadau i helpu i ddatblygu ein cynigion ymhellach. Cytunwyd bod angen symleiddio system pensiwn y wladwriaeth, ac roedd tua thri chwarter o'r sefydliadau a ymatebodd yn cefnogi'r cysyniad o bensiwn un haen.

Er gwaethaf saith degawd o newid, mae cysyniad Beveridge o bensiwn unffurf syml a bennir uwchlaw lefel sylfaenol y prawf modd i roi sylfaen gadarn ar gyfer cynilo yn parhau i ddenu cefnogaeth gref. Mae'r diwygiadau a nodir yn y ddogfen hon yn adleisio symlrwydd model Beveridge ar gyfer pensiwn y wladwriaeth, er mwyn helpu pobl i gynllunio ar gyfer incwm ymddeol diogel a'i gronni.

Steve Webb AS
Y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

1 Beveridge W, 1942, *Social Insurance and Allied Services*, Cmd. 6404, HMSO.
2 Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012, *Historic and Projected Mortality Data (1951 to 2060) from the UK Life Tables, 2010-Based*, SYG.
3 OECD, 1963, Manpower Statistics: 1950-1962, OECD. (http://webexchanges.oecdcode.org/aguJ8xa8/manpower__2_.pdf).
4 Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011, *Divorces in England and Wales*, SYG.
5 Tabl 3 yn nogfen y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau'r Farchnad Lafur, Hydref 2012, 2012, SYG. (http://www.ons.gov.uk/ons/rel/lms/labour-market-statistics/october-2012/statistical-bulletin.html).
6 Adran Gwaith a Phensiynau, 2011, *Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer yr 21ain ganrif*, CM 8053, TSO.

Crynodeb gweithredol

Y cyd-destun ar gyfer diwygio

1. Mae cefnogi pensiynwyr wedi bod yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth ers iddi ddod i rym: mae cytundeb y glymblaid yn cynnwys ymrwymiad i ddiogelu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy glo triphlyg sef cynyddu ei werth yn ôl yr uchaf o blith chwyddiant prisiau, twf enillion neu 2.5 y cant. Ym mis Medi 2012, roedd y pwynt cyfeirio ar gyfer ystyried lefel budd-daliadau 2013/14, sef chwyddiant prisiau a thwf enillion, islaw 2.5 y cant am y tro cyntaf ers cyflwyno'r clo triphlyg. Felly, o fis Ebrill 2013, bydd isafswm gwarantedig y clo triphlyg yn cael ei weithredu gan olygu y bydd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cynyddu 2.5 y cant. O ganlyniad, bydd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cynrychioli cyfran uwch o enillion cyfartalog nag ar unrhyw adeg ers 1992.[7]

2. Mewn cyfnod o gyfyngiadau cyllidol, mae'r Llywodraeth hefyd wedi diogelu cymorth ychwanegol allweddol i bensiynwyr fel tocynnau bws am ddim, presgripsiynau am ddim a Thaliadau Tanwydd Gaeaf. Mae hefyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r system bensiynau, gan gynnwys:

   - cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn gynharach er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gynaliadwy;
   - dileu'r oedran ymddeol rhagosodedig, sef 65 oed, er mwyn sicrhau bod gweithwyr hŷn yn gallu parhau i weithio os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3. Erbyn hyn, mae incymau pensiynwyr yn uwch nag erioed a'r rheswm am hyn yw bod yr incwm hwn wedi tyfu'n gyflymach nag enillion cyfartalog yn y tymor hwy. Roedd canran y pensiynwyr mewn tlodi cymharol yn agos at y ganran isaf erioed yn 2010/11 (14 y cant ar ôl costau tai)[8] gyda phensiynau yn llai tebygol o fod mewn tlodi cymharol o gymharu â'r boblogaeth gyfan.[9] Fodd bynnag, mae incymau pensiynwyr yn gyfuniad cymhleth iawn o daliadau'r wladwriaeth a thaliadau preifat, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i unrhyw un ragweld faint o incwm y byddant yn ei gael pan fyddant yn ymddeol.

[7] Ffynhonnell: Gwaith modelu DWP, mae data enillion yn seiliedig ar ddogfen y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012, *Annual Survey of Hours and Earnings*, SYG.

[8] Ffigurau 2010/11 yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael. Adran Gwaith a Phensiynau, 2012, *Household Below Average Incomes An analysis of the income distribution 1994/95 - 2010/11*, Adran Gwaith a Phensiynau.

[9] Mae ffigurau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sydd wedi bod yn cyflwyno data ers 1961, yn dangos mai dim ond yn 1984 y gwelwyd cyfraddau is o bensiynwyr ar incwm cymharol isel o gymharu â lefelau 2010/11. (http://www.ifs.org.uk/fiscalFacts/povertyStats).

4. Yn ogystal, mae gostyngiad sylweddol mewn cynilion o bensiynau galwedigaethol ers y 1970au yn bygwth newid y rhagolygon ar gyfer cenedlaethau o bensiynwyr yn y dyfodol. Mae nifer y bobl sy'n cynilo mewn cynllun pensiwn galwedigaethol wedi lleihau o'i lefel uchaf, sef ychydig yn fwy na 12 miliwn o aelodau gweithredol yn 1967, i 8.2 miliwn yn 2011[10], gyda gostyngiad sylweddol mewn cynlluniau Buddiannau Diffiniedig yn y sector preifat. Yn ôl amcangyfrif y Llywodraeth, mae bron 11 miliwn o bobl yn y gweithlu presennol yn wynebu incymau ymddeol annigonol.[11]

5. Yn 2002, sefydlwyd Comisiwn Pensiynau annibynnol i ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu system bensiynau'r DU. Nododd y Comisiwn nifer o feysydd allweddol y mae angen eu diwygio, gan gynnwys:

   - **Tangynilo ar gyfer ymddeol**: roedd miliynau o bobl nad oeddent yn cynilo digon i greu'r incwm yr oeddent yn debygol o fod am ei gael, neu'n ei ddisgwyl, wedi iddynt ymddeol.
   - **Cymhlethdod**: roedd cymhlethdodau system pensiwn y wladwriaeth yn atal pobl rhag gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch p'un a ddylent gynilo, pa bryd y dylent wneud hynny a faint y dylent ei gynilo.
   - **Anghydraddoldebau yn y system bensiynau**: roedd pryderon bod gan rai grwpiau, yn enwedig merched, lai o gyfleoedd i gynilo ar gyfer incwm digonol wedi iddynt ymddeol.
   - **Gynaliadwyedd**: er mwyn sicrhau bod y system yn parhau'n deg rhwng y cenedlaethau ac yn gynaliadwy, dylid cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn disgwyliad oes.

Helpu pobl i gynilo

6. Mae'r Llywodraeth wedi chwarae rôl fwyfwy pwysig o ran helpu pobl i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Mae hyn yn cynnwys:

   - rhyddhad treth ar gynilion ymddeol (yn 2010/11 roedd cost y rhyddhad hwn yn £32.9 biliwn, a thros £45 biliwn yn cynnwys rhyddhad Yswiriant Gwladol cyflogwyr)[12];
   - rhyddhad treth ar gynilion personol drwy Gyfrifon Cynilo Unigol (ISAs), a'r broses o hyrwyddo ymgysylltiad ariannol;
   - rheoleiddio darparwyr pensiynau preifat.

7. Mae'r broses o gofrestru'n awtomatig, a gyflwynwyd o fis Hydref 2012, yn rhoi'r cyfle i filiynau o bobl gynilo mewn pensiwn gweithle – gyda'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod gan gyflogwyr fynediad i gynllun syml, cost isel. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddwyd '*Adfywio Pensiynau Gweithle*'[13], a oedd yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i adfer hyder mewn cynilion pensiwn.

Diwygio pensiwn y wladwriaeth

8. Mae ystod eang o ddiwygiadau wedi'u cyflwyno ers adroddiadau'r Comisiwn Pensiynau i wella cwmpas pensiwn y wladwriaeth a sicrhau bod system pensiwn y wladwriaeth yn symlach ac yn decach. Fodd bynnag, bydd cryn dipyn o amser wedi mynd heibio cyn i ni weld effaith lawn y newidiadau hyn. Er enghraifft, bydd cyfran y pensiynwyr sy'n cael Credyd Pensiwn yn gostwng yn raddol o tua 40 y cant o bensiynwyr heddiw i tua 10 y cant erbyn 2050. Hefyd, bydd angen aros tan ganol y 2050au cyn i ni weld yr un canlyniadau pensiwn y wladwriaeth ar gyfer dynion a merched.

[10] Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011, *Occupational Pension Schemes Survey*, SYG.
[11] Adran Gwaith a Phensiynau, 2012, *Estimates of the number of people facing inadequate retirement incomes*, Adran Gwaith a Phensiynau.
[12] Ystadegau Cyllid a Thollau EM. (www.hmrc.gov.uk/statistics/pension-stats/pen6.pdf).
[13] Adran Gwaith a Phensiynau, 2012, *Adfywio pensiynau gweithle*, CM 8478, TSO.

9. Erys cymhlethdod ac ansicrwydd sylweddol - sy'n golygu nad oes gan lawer o bobl fan cychwyn clir ar gyfer cynllunio a chynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), roedd 63 y cant o ymatebwyr yn uniaethu â'r datganiad "weithiau mae pensiynau yn ymddangos mor gymhleth fel nad wyf yn gwybod beth yw'r peth gorau i'w wneud".[14]

10. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen diwygiadau nawr fel bod gan genedlaethau presennol o weithwyr sylfaen foddhaol i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad.

Diwygio pensiwn y wladwriaeth: y pensiwn un haen

11. Ar 4 Ebrill 2001, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau opsiwn i ddiwygio pensiwn y wladwriaeth:

    - Byddai'r opsiwn cyntaf, 'cyflwyno cyfradd unffurf yn gynt' yn cyflymu'r newidiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt i gyflwyno pensiwn dwy haen cyfradd unffurf.
    - Roedd yr ail opsiwn, pensiwn 'un haen', yn ddiwygiad mwy beiddgar i gyflwyno pensiwn cyfradd unffurf a bennir uwchlaw lefel sylfaenol y cymorth a roddir ar sail prawf modd.

    Roedd tua thri chwarter y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ffafrio'r cysyniad o bensiwn un haen.[15]

12. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi adeiladu ar y model un haen a nodwyd yn y Papur Gwyrdd i ddatblygu cynnig manwl ar gyfer diwygio pensiwn y wladwriaeth. Rhoddwyd sylw arbennig i'r broses o drosglwyddo i'r system newydd er mwyn sicrhau bod symlrwydd ac eglurder y pensiwn un haen yn cael eu cyflawni cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei weithredu. Cyflwynir deddfwriaeth i ddiwygio pensiwn y wladwriaeth cyn gynted â phosibl, yn amodol ar yr amserlen Seneddol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r pensiwn un haen ar waith o fis Ebrill 2017 ar y cynharaf.

13. Bydd y newid i bensiwn un haen yn golygu y caiff gwariant cyfredol ar bensiwn y wladwriaeth ei ailstrwythuro a chyflwynir swm cyfradd unffurf syml a fydd yn rhoi eglurder a hyder er mwyn helpu pobl i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad yn well. Bydd y rheini sydd eisoes wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan gyflwynir y diwygiadau yn parhau i gael pensiwn y wladwriaeth (a'r Credyd Cynilion, lle y bo'n gymwys) yn unol â rheolau presennol.

14. Bydd y pensiwn un haen:

    - yn cael ei bennu uwchlaw lefel sylfaenol y cymorth a roddir ar sail prawf modd (Gwarant Isafswm Safonol Credyd Pensiwn, sef £142.70 yr wythnos i bensiynwr sengl ar hyn o bryd). Bydd y gofyniad deddfwriaethol cyfredol i gynyddu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn unol â'r twf cyfartalog mewn enillion o leiaf hefyd yn gymwys i'r pensiwn un haen. At ddibenion dangosol, mae'r ddogfen hon yn tybio y caiff y pensiwn un haen ei uwchraddio gan y clo triphlyg, yn unol â pholisi'r glymblaid ar gyfer uwchraddio Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth;
    - yn disodli Ail Bensiwn y Wladwriaeth, trefniadau eithrio ac ychwanegiadau sydd wedi dyddio, fel pensiwn Categori D a'r Ychwanegiad Oedran. Ni fydd elfen Credyd Cynilion Credyd Pensiwn ar gael i bensiynwyr sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ychwaith ar ôl cyflwyno'r pensiwn un haen;

[14] MacLeod ac eraill, 2012, *Attitudes to Pensions: The 2012 survey*, Adroddiad Ymchwil Rhif 813 yr Adran Gwaith a Phensiynau, Adran Gwaith a Phensiynau.

[15] Adran Gwaith a Phensiynau, 2011, *Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer yr 21ain ganrif: Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus*, Cm 8131, TSO.

- yn gofyn am 35 o flynyddoedd cymhwyso o gyfraniadau Yswiriant Gwladol neu gredydau ar gyfer y swm llawn. Hefyd, cyflwynir isafswm cyfnod cymhwyso o rhwng saith a 10 mlynedd (wedi'i fodelu fel 10 drwy gydol y ddogfen hon). Bydd y rheini sydd â llai na 35 o flynyddoedd cymhwyso ond mwy na'r isafswm cyfnod cymhwyso yn cael swm un haen llai yn ôl ei gyfran;
- yn seiliedig ar gymhwyster unigol, ac ni fydd modd etifeddu na chael hawliau i bensiwn y wladwriaeth gan briod neu bartner sifil;
- yn parhau i alluogi pobl i oedi cyn gwneud cais am bensiwn y wladwriaeth a chael pensiwn wythnosol uwch gan y wladwriaeth yn gyfnewid am hynny. Caiff y gyfradd ohirio ei chadarnhau'n agosach at y dyddiad gweithredu arfaethedig. Ni fydd yn bosibl cael pensiwn y wladwriaeth a ohiriwyd ar ffurf cyfandaliad mwyach.

15. Bydd trefniadau trosglwyddo ychwanegol yn diogelu'r rheini sydd â chofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn y broses weithredu ac fe'u disgrifir isod.

Siart E1: Dosbarthiad rhagamcanol o incwm pensiwn y wladwriaeth net i'r rheini sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn 2040 o dan y system gyfredol a'r system un haen[16]



16. Bydd y pensiwn un haen yn symleiddio'r system bensiynau'n sylweddol ac yn helpu pobl i ddeall yr hyn y byddant yn ei gael gan y Wladwriaeth pan fyddant yn ymddeol. Erbyn canol y 2030au, bydd dros 80 y cant o bobl yn cael swm wythnosol llawn y pensiwn un haen, gan leihau'r amrywiaeth o ganlyniadau pensiwn o gymharu â'r system gyfredol a chynnig mwy o sicrwydd. Bydd cyfran y bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl cyflwyno'r pensiwn un haen sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn yn cael ei haneru o gymharu â'r system gyfredol, a bydd yn parhau o dan 10 y cant hyd at 2060. Bydd y pensiwn un haen hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y system drwy gyflwyno'r un canlyniadau pensiwn y wladwriaeth i ddynion a merched dros ddegawd yn gynt.

[16] Ffynhonnell: Gwaith modelu DWP, yn seiliedig ar Pensim2. Mae swm llawn y system un haen yn y siart hon yn uwch na'r £144 a ddangosir oherwydd, o dan broses uwchraddio'r clo triphlyg, disgwylir i werth y pensiwn un haen dyfu ychydig yn gyflymach nag enillion cyfartalog yn yr hirdymor.

17. Bydd diwygiadau un haen yn moderneiddio system pensiwn y wladwriaeth drwy adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw: bydd y mwyafrif helaeth o unigolion yn cronni digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol eu hunain i fod â hawl i gael y swm llawn un haen, yn hytrach na dibynnu ar gyfraniadau eu priod neu bartner sifil. Mewn marchnad lafur fwyfwy hyblyg, caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol pobl hunangyflogedig eu trin yn yr un ffordd â chyfraniadau cyflogeion at ddibenion pensiwn y wladwriaeth.

Rheoli'r broses o ddod â threfniadau eithrio i ben

18. Un rhan annatod o'r diwygiadau un haen yw'r broses o ddod ag Ail Bensiwn y Wladwriaeth i ben ac, fel estyniad i hynny, eithrio o Ail Bensiwn y Wladwriaeth - y gallu i roi'r gorau i'r hawl honno yn gyfnewid am bensiwn galwedigaethol Buddiannau Diffiniedig sy'n gymharol debyg o leiaf. Bydd yr elfen hon o'r broses ddiwygio yn chwarae rôl bwysig iawn o ran symleiddio'r system bensiynau, gan safoni darpariaeth pensiwn y wladwriaeth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar draws y gweithlu, ac amlinellu rôl pensiwn y wladwriaeth a phensiynau galwedigaethol yn fwy clir.

19. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd y broses o ddod â threfniadau eithrio i ben yn arwain at ystod o oblygiadau i gyflogwyr, cyflogeion a chynlluniau. Y prif nodau wrth reoli'r broses o ddod â threfniadau eithrio i ben yw lleihau'r effeithiau hyn - er mwyn sicrhau bod prosesau gweinyddol mor syml â phosibl, bod y symiau a gronnwyd mewn cynlluniau hyd at y pwynt pan gyflwynir y pensiwn un haen yn parhau i gael eu talu ac na chaiff cynaliadwyedd cynlluniau pensiwn Buddiannau Diffiniedig eu tanseilio.

    - Bydd diwedd y broses eithrio yn arwain at oblygiadau i gyflogwyr o ran costau a gwaith gweinyddol, a'r goblygiad mwyaf fydd yr angen i ddechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd safonol. Bydd hyn yn golygu cynnydd ar gyfer pob cyflogai sydd wedi'i eithrio o 3.4 y cant o enillion perthnasol. Bydd llawer o gyflogwyr yn gallu gwrthbwyso'r costau ychwanegol hyn drwy leihau buddiannau pensiwn yn y dyfodol neu drwy gynyddu cyfraddau cyfraniadau cyflogeion. Mewn rhai achosion, dim ond ymddiriedolwyr all newid rheolau'r cynllun neu mae angen caniatâd yr ymddiriedolwyr i wneud hynny. Er mwyn diogelu hyfywedd parhaus cynlluniau pensiwn Buddiannau Diffiniedig, mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen rhoi pwerau cyfyngedig i gyflogwyr er mwyn iddynt allu newid rheolau cynlluniau at y dibenion hyn heb orfod cael caniatâd ymddiriedolwyr.
    - Bydd cyflogeion sydd wedi'u heithrio yn ailymuno'n llawn â system y wladwriaeth ac yn dechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol llawn - cynnydd sy'n cyfateb i 1.4 y cant o enillion perthnasol. Fodd bynnag, bydd tua 90 y cant o'r rheini sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn ystod y ddau ddegawd cyntaf ar ôl cyflwyno'r pensiwn un haen yn cael digon o bensiwn y wladwriaeth ychwanegol yn ystod eu hymddeoliad i wrthbwyso'r cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol y byddant yn eu talu dros weddill eu bywydau gwaith ac unrhyw addasiadau posibl i'w pensiwn galwedigaethol.

20. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant pensiwn a chynrychiolwyr cyflogwyr, yn ogystal â'r rheini sy'n cynrychioli cyflogeion, wrth i'r broses weithredu agosáu.

Trosglwyddo i'r pensiwn un haen

21. Bydd y broses o drosglwyddo i'r pensiwn un haen yn golygu y caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gofnodwyd cyn y broses weithredu eu trosi'n swm cychwynnol syml un haen - y 'swm sylfaenol'.

22. Caiff gwerth cofnod Yswiriant Gwladol unigolyn ei bennu gan ddefnyddio rheolau un haen ar adeg gweithredu'r pensiwn un haen. Os yw unigolyn wedi'i eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn flaenorol, gwneir didyniad er mwyn adlewyrchu'r ffaith ei fod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is yn ystod y cyfnod hwnnw, yn unol â'r arfer presennol.

23. Fel mesur diogelu ychwanegol, bydd y Llywodraeth yn edrych i weld a fyddai rheolau'r system gyfredol yn arwain at ganlyniad gwell. Y prisiad uwch fydd yn cael ei bennu fel swm sylfaenol yr unigolyn yn y pen draw.

24. O dan y broses drosglwyddo hon, bydd y rheini sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl cyflwyno'r pensiwn un haen yn perthyn i bedwar grŵp gwahanol:

    - Unigolion â swm sylfaenol sy'n **cyfateb i lefel lawn y pensiwn un haen**. Mae'r rhain yn debygol o fod yn bobl sydd â'r 35 o flynyddoedd cymhwyso sydd eu hangen, ychydig iawn o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ac nid ydynt wedi'u heithrio.

    - Unigolion â swm sylfaenol sy'n **llai na lefel lawn y pensiwn un haen**. Mae'r rhain yn debygol o fod yn bobl iau â llai o flynyddoedd cymhwyso, neu bobl hŷn sydd wedi treulio sawl blwyddyn wedi'u heithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Bydd y bobl hyn yn gallu cynyddu eu pensiwn un haen i'r lefel lawn, ar gyfradd o 1/35ain o'r gyfradd lawn (£4.11 i'r geiniog agosaf) am bob blwyddyn gymhwyso ychwanegol a gânt cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

    - Unigolion â swm sylfaenol sy'n **fwy na lefel lawn y pensiwn un haen**. Mae'r rhain yn debygol o fod yn bobl hŷn a chanddynt lawer o flynyddoedd cymhwyso sydd heb dreulio cyfnodau sylweddol wedi'u heithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Bydd y bobl hyn yn cael y gwahaniaeth rhwng eu swm sylfaenol a swm llawn y pensiwn un haen fel taliad ychwanegol ar ben swm wythnosol llawn y pensiwn un haen.

    - Unigolion **heb gofnod Yswiriant Gwladol sy'n dyddio o'r cyfnod cyn y broses weithredu**. Bydd y system un haen, sy'n symlach ac yn haws ei deall, yn golygu y byddant yn deall y canlyniad hirdymor. Byddant hefyd yn cael eu hannog i gynilo mewn cynllun pensiwn gweithle drwy gofrestriad awtomatig a'r mesurau polisi a nodir yn nogfen y Llywodraeth 'Adfywio Pensiynau Gweithle' drwy gydol eu bywyd gwaith.

25. Ceir astudiaethau achos sy'n dangos sut y bydd y broses drosglwyddo'n gweithio ar ddiwedd y crynodeb gweithredol.

26. Mae'r dull diwygiedig yn sicrhau bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol unigolion a gofnodwyd cyn y broses weithredu yn cael eu cydnabod wrth gyflwyno'r pensiwn un haen hwnnw, ac yn caniatáu i bobl a oedd wedi'u heithrio i wneud cynnydd tuag at gael swm wythnosol llawn y pensiwn un haen. Yn ogystal, mae pobl sydd â symiau isel o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, er enghraifft oherwydd cyfnodau o ofalu neu gyflog isel iawn, yn debygol o weld canlyniadau gwell o ran pensiwn y wladwriaeth. Er enghraifft, bydd tua 750,000 o ferched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn ystod y deng mlynedd cyntaf ar ôl cyflwyno'r pensiwn un haen yn cael £9 yr wythnos yn fwy o bensiwn y wladwriaeth ar gyfartaledd oherwydd y prisiad un haen.

27. O gymharu â chynigion a nodwyd yn y Papur Gwyrdd, mae'r dull gweithredu hwn yn cyflymu'r broses drosglwyddo ac yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl fydd yn cael y pensiwn un haen llawn. Erbyn canol y 2030au, bydd tua 80 y cant o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cael y pensiwn un haen llawn.

Fforddiadwyedd a thybiaethau

28. O dan y system Yswiriant Gwladol talu wrth fynd, bydd unrhyw gynnydd mewn gwariant cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag oedran yn cael ei dalu gan y genhedlaeth sy'n gweithio ar y pryd, neu gan genedlaethau'r dyfodol drwy ddyledion cynyddol y Llywodraeth. Heb y newidiadau a nodir yn y ddogfen hon, disgwylir i wariant ar bensiynau'r wladwriaeth a budd-daliadau i bensiynwyr gynyddu o 6.9 y cant o CMC yn 2012/13 i 8.5 y cant o CMC yn 2060/61.[17]

29. Yn sgil y pwysau cyllidol hyn, mae'r diwygiadau un haen wedi'u cynllunio i sicrhau na fyddant yn costio mwy na'r system bensiynau bresennol, gan ailstrwythuro'r gwariant cyfredol ar fudd-daliadau i bensiynwyr i greu fersiwn symlach o bensiwn y wladwriaeth. At ddibenion dangosol, mae'r ddogfen hon yn tybio y bydd lefel gychwynnol y pensiwn un haen llawn yn £144 yr wythnos (yn nhermau enillion heddiw) ac y caiff y swm hwn ei uwchraddio hyd at 2060 drwy'r clo triphlyg (yr uchaf o blith y twf mewn prisiau, enillion cyfartalog neu 2.5 y cant) Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, mae'r diwygiadau i'r pensiwn un haen a nodir yn y Papur Gwyn hwn yn arafu'r cynnydd a ragamcenir ym mhensiwn y wladwriaeth a'r gwariant ar fudd-daliadau i bensiynwyr i 8.1 y cant o CMC yn 2060.

30. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod rhagolygon gwariant hirdymor yn ansicr iawn gan eu bod yn dibynnu ar amcanestyniadau o dueddiadau demograffig a pherfformiad yr economi ymhell yn y dyfodol.

31. Bydd y Llywodraeth yn penderfynu ar swm cychwynnol y pensiwn un haen a'r dull uwchraddio a ddefnyddir ychydig cyn iddo gael ei weithredu, gan ystyried y cyd-destun cyllidol ehangach ar y pryd. Caiff penderfyniadau pellach ar uwchraddio eu gwneud gan Lywodraethau'r dyfodol yn flynyddol fel rhan o'r broses uwchraddio flynyddol. Bydd deddfwriaeth un haen yn darparu'r hyblygrwydd hwn, a chaiff ei hategu gan ofyniad statudol i uwchraddio yn ôl enillion o leiaf.

[17] Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar amcanestyniadau DWP. Mae'r amcanestyniadau hyn yn wahanol i'r rheini yn Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol OBR a gyhoeddwyd yn 2012 gan eu bod yn cwmpasu Prydain Fawr yn unig ac yn defnyddio tybiaethau uwchraddio gwahanol ar gyfer rhai budd-daliadau i bensiynwyr (e.e. budd-daliadau anabledd). Diweddarwyd amcanestyniadau DWP i adlewyrchu rhagolygon economaidd tymor canolig OBR a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref 2012.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

32. Mae cadw costau'r pensiwn un haen o fewn paramedrau cyllidol y system bensiynau bresennol yn bwysig er mwyn sicrhau bod diwygiadau yn gynaliadwy. Fodd bynnag, bydd newidiadau i dueddiadau demograffig yn effeithio ar y proffil gwariant. Felly, mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn yr hirdymor.

33. Yn ôl y data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), mae disgwyliad oes dynion a merched ar adeg eu geni ar ei lefel uchaf erioed. Disgwylir i'r cynnydd mewn disgwyliad oes barhau yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r newidiadau mynych a wneir i amcanestyniadau o ddisgwyliad oes, a hynny ar i fyny, argymhellodd y Comisiwn Pensiynau, yn ei adroddiad yn 2005, y dylid cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn fras yn unol â'r cynnydd mewn disgwyliad oes.[18]

34. Ar ddechrau ei chyfnod mewn grym, aeth y Llywodraeth ati'n syth i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 oed erbyn mis Hydref 2020 er mwyn sicrhau bod modd rheoli costau system pensiwn y wladwriaeth yn sgil y cynnydd mewn disgwyliad oes. Fodd bynnag, ni fydd gwelliannau ar gyfer hir oes yn dod i ben yn 2020. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i 67 oed rhwng 2026 a 2028 a bydd yn deddfu ar y sail hon cyn gynted â phosibl.

35. Wrth i ddisgwyliad oes barhau i gynyddu, mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen fframwaith mwy strwythuredig ar gyfer ystyried newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y costau sy'n ymwneud â hirhoedledd yn cael eu rhannu'n deg rhwng y cenedlaethau ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y ffordd y bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn newid yn y dyfodol.

36. I'r perwyl hwn, bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth bob pum mlynedd, yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pobl gael pensiwn y wladwriaeth yn ystod cyfran benodol o'u bywyd fel oedolion. Caiff hyn ei lywio gan ddadansoddiad o amcanestyniadau disgwyliad oes gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ac adroddiad gan gorff annibynnol ar ffactorau ehangach y dylid eu hystyried wrth bennu oedran Pensiwn y Wladwriaeth, fel amrywiadau mewn disgwyliad oes. Cynhelir yr adolygiad cyntaf yn ystod y Senedd nesaf.

Astudiaeth achos ar gyfer y pensiwn un haen

37. Mae'r astudiaethau achos syml a nodir isod yn dangos y broses drosglwyddo ar gyfer pobl mewn amgylchiadau gwahanol ar adeg y broses weithredu. Yn gyson â nodau allweddol y diwygiadau un haen, rydym wedi ceisio cyflwyno'r cynigion hyn mor glir â phosibl. Nid ydynt yn dangos effaith y broses uwchraddio.

[18] Y Comisiwn Pensiynau, 2005, *A New Pension Settlement for the Twenty-First Century*, TSO.

Astudiaeth Achos E1.1: Liz, 57 oed pan roddir y pensiwn ar waith, sydd â swm sylfaenol sy'n cyfateb i lefel lawn y pensiwn un haen



Mae swm sylfaenol Liz yn cyfateb i lefel lawn y pensiwn un haen. Felly, bydd yn cael £144 yr wythnos pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

- Mae Liz wedi bod yn rhedeg ei busnes bach ei hun ers 36 mlynedd.
- Mae ei chofnod Yswiriant Gwladol yn 2017 yn cael ei brisio o dan y rheolau un haen, sy'n ystyried ei blynyddoedd cymhwyso. Gan nad yw wedi'i heithrio, ni wneir unrhyw ddidyniad.
- Edrychir i weld a fyddai Liz yn cael prisiad uwch o dan reolau'r system gyfredol. Nid yw pobl hunangyflogedig yn cronni Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ac felly'r uchafswm y gallai ddisgwyl ei gael o dan y system gyfredol yw lefel lawn Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth: £107 yr wythnos.
- Yn achos Liz, mae'r prisiad un haen yn uwch ac felly dyna fydd ei swm sylfaenol.
- Gan fod ei swm sylfaenol eisoes yn £144, ni fydd yn gallu ychwanegu pensiwn ychwanegol drwy flynyddoedd cymhwyso a gronnir ar ôl y broses weithredu.
- Pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd yn cael £144 yr wythnos.

Astudiaeth Achos E1.2: Matt, 32 oed pan roddir y pensiwn ar waith, sydd â swm sylfaenol sy'n llai na lefel lawn y pensiwn un haen



Mae swm sylfaenol Matt yn llai na lefel lawn y pensiwn un haen. Gall Matt adeiladu ar y swm hwn gyda phob blwyddyn gymhwyso a gronnir ar ôl y broses weithredu nes ei fod yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bryd hynny, gall gael swm llawn y pensiwn un haen sef £144 yr wythnos.

- Roedd Matt wedi bod yn gweithio fel athro ers deng mlynedd cyn cyflwyno'r pensiwn un haen.
- Ar adeg y broses weithredu, caiff ei gofnod Yswiriant Gwladol ei brisio o dan y rheolau un haen sy'n ystyried ei flynyddoedd cymhwyso a hefyd yn gwneud didyniad i adlewyrchu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is a dalwyd ganddo yn ystod yr amser yr oedd wedi'i eithrio.
- Edrychir i weld a fyddai Matt yn cael prisiad uwch o dan reolau'r system gyfredol.
- Yn achos Matt, mae prisiad y system gyfredol yn uwch ac felly dyna fydd ei swm sylfaenol.
- Gan fod ei swm sylfaenol yn llai na £144, gall ychwanegu pensiwn ychwanegol ar gyfradd o £4.11 (i'r geiniog agosaf) am bob blwyddyn gynhwyso bellach a gronnir, hyd at uchafswm o £144.
- Mae angen i Matt gronni 24 o flynyddoedd cymhwyso ar ôl y broses weithredu er mwyn derbyn lefel lawn y pensiwn un haen pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Astudiaeth Achos E1.3: Jenny, 60 oed pan roddir y pensiwn ar waith, sydd â swm sylfaenol sy'n fwy na lefel lawn y pensiwn un haen



Mae swm sylfaenol Jenny yn fwy na lefel lawn y pensiwn un haen. Pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd yn cael swm llawn y pensiwn un haen sef £144 yr wythnos, ynghyd â'r swm ychwanegol.

- Bu Jenny yn gweithio fel derbynyddes am 32 mlynedd, a threuliodd sawl blwyddyn hefyd yn gweithio mewn swyddi rhan-amser.
- Mae ei chofnod Yswiriant Gwladol yn cael ei brisio ar adeg y broses weithredu o dan y rheolau un haen, sy'n ystyried ei blynyddoedd cymhwyso. Gan nad yw wedi'i heithrio, ni wneir unrhyw ddidyniad.
- Edrychir i weld a fyddai Jenny yn cael prisiad uwch o dan reolau'r system gyfredol.
- Yn achos Jenny, mae prisiad y system gyfredol yn uwch, ac felly dyna fydd ei swm sylfaenol.
- Gan fod y swm hwn yn fwy na lefel lawn y pensiwn un haen, ni fydd Jenny yn gallu cael pensiwn ychwanegol drwy ychwanegu blynyddoedd cymhwyso a gronnir ar ôl y broses weithredu.
- Pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd yn cael swm llawn y pensiwn un haen sef £144, ynghyd â'i 'thaliad a ddiogelir' sef £3 yr wythnos.

Astudiaeth Achos E1.4 - Tim, 15 oed pan roddir y pensiwn ar waith, myfyriwr ysgol uwchradd



Mae Tim yn fyfyriwr ysgol pan gyflwynir y pensiwn un haen felly nid oes ganddo gofnod Yswiriant Gwladol eto. Am bob blwyddyn gymhwyso a gronnir ganddo, bydd yn ychwanegu £4.11 yr wythnos at ei bensiwn un haen, hyd at yr uchafswm o £144.

- Gan nad oes ganddo gofnod Yswiriant Gwladol cyn cyflwyno'r pensiwn un haen, nid oes gan Tim 'swm sylfaenol'.
- Yn hytrach, mae'n ychwanegu pensiwn ar gyfradd o £4.11 am bob blwyddyn gymhwyso a gronnir ganddo. Os bydd yn cronni 35 o flynyddoedd cymhwyso, bydd yn cael £144 yr wythnos pan fydd yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Mae hyn yn ei roi mewn sefyllfa dda i ddeall faint y mae angen iddo ei gynilo yn ei gynllun pensiwn gweithle o ddechrau ei fywyd gwaith.
- Pan fydd Tim yn 22 oed, caiff ei gofrestru'n awtomatig gyda'i gynllun pensiwn gweithle, gan ei gwneud yn haws iddo gynilo ar gyfer ei ymddeoliad.

ISBN 978-1-78153-361-1

(h) Hawlfraint y Goron 2013

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ionawr 2013

www.dwp.gov.uk/cymraeg